


Awgrymiadau Anhygoel ar gyfer Peillwyr




Awgrymiadau Anhygoel ar gyfer Peillwyr



Cynnwys



- | | |
|------------|---|
| Tudalen 2 | Rhagair gan Matt Shardlow,
Prif Weithredwr Buglife |
| Tudalen 3 | Am Buglife a'r B-Lines |
| Tudalen 4 | Beth mae Pryf Peillio yn ei wneud? |
| Tudalen 6 | Byd Anhygoel y Peillwyr |
| Tudalen 8 | Dychmygwch am Eiliad |
| Tudalen 9 | Wyddoch Chi? |
| Tudalen 10 | Awgrymiadau Anhygoel ar gyfer Peillwyr |
| Tudalen 22 | Peidiwch â bod yn Gawr Gwirion |
| Tudalen 24 | Ymunwch â Map B-Lines |




*Celfwaith gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Sandfields ac Ysgol Rhosafan a Tom Maloney.
Golygwyd gan Emily Shaw, Buglife Cymru*

©2023





Rhagair gan Matt Shardlow, Prif Weithredwr Buglife



Yn rhy aml bydd pobl yn anwybyddu pethau pwysig os ydyn nhw'n fychan! Mae hynny'n wir, yn anffodus, am weny, chwilod, pryfed, gwyfynod a thrychfilod eraill.



Mae'r creaduriaid bach yma'n hanfodol ar gyfer planed iach, maen nhw'n peillio blodau fel y gallan nhw gynhyrchu hadau a ffrwythau, sy'n golygu bod blodau yng nghefn gwlad, bwyd ar ein platiau ac adar yn yr awyr.




Bydd y llyfr bach hyfryd hwn yn eich helpu i greu mannau diogel i bryfed ffynnu, ac os byddan nhw'n ffynnu, yna byddwn ninnau hefyd.

Rhannwch y newydd!



Buglife Cymru



Buglife yw'r unig elusen yn Ewrop sy'n anelu i warchod ein hinfertebratau i gyd - o fwydod a gwrachod y lludw i chwilod a glöynnod. Helpwch ni i achub y pethau bychain sy'n rhedeg y blaned!



B-Lines

Mae B-Lines yn llwybrau sy'n cysylltu clytiau o gynefin. Mae'r rhain yn helpu ein peillwyr brodorol fel cacynod, glöynnod byw a gwyfynod i symud trwy ein trefi a chefn gwlad i chwilio am fwyd a pheillio ein cnydau.




www.buglife.org.uk



Beth mae Pryf Peillio yn ei wneud?



Peillio yw sut bydd planhigion sy'n blodeuo yn atgynhyrchu. Mae angen i'r paill gael ei drosglwyddo o ran wrywaidd y blodyn sef yr anther, i ran fenywaidd y blodyn sef y stigma.



Mae'r mwyafrif o blanhigion angen pryfed peillio i wneud y gwaith yma. Mae blodau'n darparu neithdar melys yn llawn siwgr a phaill maethlon i bryfed peillio fel tanwydd a phrotein, ac ar yr un pryd, mae'r peillwyr yn symud paill o un blodyn i un arall o'r un rhywogaeth er mwyn i'r planhigyn allu cynhyrchu hadau ac atgynhyrchu.

Edrychwch yn fanwl ar y Gacynen Gynffongoch.

Mae'r Cacwn yn beillwyr gwych. Mae eu cyrff blewog trwchus yn eu galluogi i gasglu a chludo paill.



Mae'r Cacwn yn gallu grŵn-beillio, sy'n golygu eu bod yn gallu dirgrynu eu cyrff i ryddhau paill oddi ar yr antheri mewn blodyn.

Yna, mae'r cacwn yn cribo'r gronynnau paill maethlon oddi ar ei chorff blewog i mewn i fasgedi bychan ar ei choesau ôl, a elwir yn fasgedi paill neu'n 'beillgodau' i'w gario'n ôl i'r nyth i fwydo'r larfâu ifanc.



Bydd yn methu ambell ronyn ac yn eu trosglwyddo i'r stigma ar y blodyn nesaf y bydd yn ymweld ag e. Mae'n bartneriaeth berffaith rhwng pryfed a phlanhigion.



Byd Anhygoel y Peillwyr

Mae gwahanol fathau o beillwyr ac mae cymaint o amrywiaeth o ran siâp, maint a lliw, ond mae eu niferoedd yn dirywio'n aml! Dyma rai y gellir cael hyd iddynt yn ardal Castell-nedd Port Talbot!

Mae'r Gardwenynen Feinlais (*Bombus sylvarum*) wedi ei henwi am y grŵn treiddgar y mae'n ei wneud wrth hedfan. Mae ei lliw unigryw (rhesi melynwyrdd ar ei thoracs gyda rhesen ddu'n rhedeg trwyddynt rhwng bôn yr adenydd, a chynffon gochlyd) yn golygu ei bod yn wahanol iawn i gacwn eraill.



Un o gacwn prinnaf y DU!

Mae'r Wenynen Hirgorn (*Eucera longicornis*) yn un o wenyn unig mwyaf y DU. Mae'r gwryw yn hawdd i'w adnabod oherwydd ei antenau hir.



Y Saerwenynen Goch (*Osmia bicornis*). Mae ei gorff wedi ei orchuddio â blew oren garw, gyda phen mawr du. Mae gan y gwryw flew gwyn ar ei wyneb ac antenau hir iawn. Mae'n adeiladu celloedd nythu gyda waliau mwd ac yn cau'r twll gyda mwd pan mae wedi'i orffen.


Y Saerwenynen Goch yw'r gwenyn yr ydych yn debyg o'u gweld mewn gwesty gwenyn.

Y Glesyn Bach (*Cupido minimus*) yw un o löynnod byw lleiaf y DU. Mae gan y glöyn yma ddietydd gweiddol ffyslyd! Pan mae'n lindys bydd ond yn bwyta planhigyn o'r enw Plucen Felen (*Anthyllis vulneraria*). Bydd y glöyn benyw'n dodwy ei wyau ar flodau'r Plucen Felen a bydd y lindys yn bwyta'r hadau. Ceir hyd i'r glöyn byw yma'n bennaf ar hyd arfordir Port Talbot.



Bwrned Chwe Smoty (Zygaena filipendulae). Gwyfyn lliwgar sy'n hedfan yn ystod y dydd y ceir hyd iddo mewn glaswelltir sy'n llawn blodau. Mae'n grwnan wrth hedfan yn araf mewn tywydd heulog.

Chwilen Werdd Goesdew (*Oedemera nobilis*). Chwilen tywydd braf sy'n peillio llawer o flodau strwythur agored yn cynnwys Gorthyfail (*Anthriscus sylvestris*), Llygad-Ilo Mawr (*Leucanthemum vulgare*) a'r Blodyn Ymenyn (*Ranunculus acris*). Gwelir y chwilog hyn amlaf mewn haul llachar ar flodau ar ddiwrnodau cynnes neu dwym.



Dychmygwch am Eiliad

Dychmygwch am eiliad sut fyddai ein bywydau pe bae adrannau mawr o'n rhwydweithiau teithio, fel rheilffyrdd a heolydd, yn diflannu neu wedi eu cau. Byddem yn cael ein cau i mewn a'n hynysu fwyfwy ac yn methu archwilio ein tirwedd.

Dyma sy'n wynebu ein bywyd gwyllt! Dros y blynyddoedd mae llawer o'u cynefin wedi ei ddarnio wrth i ni godi mwy o swyddfeydd, cartrefi a ffyrdd. Gall sut y byddwn yn rheoli tir amaeth gael effaith hefyd.

Mae hyn wedi gadael poblogaethau o beillwyr a bywyd gwyllt arall wedi'u hynysu ac yn methu symud mewn ymateb i newid amgylcheddol, fel newid hinsawdd.

Mae symud ar draws y dirwedd yn hanfodol i fywyd gwyllt allu dod o hyd i fwyd, cymar, lloches ac ardaloedd i nythu a gaeafu.



Bellach, allwn ni ond cael hyd i'r Gardwenynen Feinlais yng Nghastell-nedd Port Talbot a dim ond ychydig ardaloedd eraill o Gymru a'r DU.



Wyddoch Chi?


Mae pawb yn gwybod bod pryfed yn bwysig ar gyfer peillio planhigion, ond oeddech chi'n gwybod gymaint yr ydym yn dibynnu arnynt?

Gall rhai planhigion ddefnyddio'r gwynt neu ddŵr i drosglwyddo paill o un planhigyn i'r llall, ond mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn dibynnu ar bryfed i wneud hyn - ac maen nhw'n ei wneud i gyd am ddim!

Mae traean o'r hyn yr ydym yn ei fwyta ar ein platiau diolch i bryfed!



Awgrymiadau Anhygoel ar gyfer Peillwyr #1



Cadwch y peiriant torri gwair yn y sied dros yr Haf er mwyn gadael i'r blodau gwyllt naturiol dyfu!



Mae Glesni
Y Glesyn Bach
yn dweud ...

"Anghofiwch y Torri!"

'Dyw natur ddim yn daclus!
Mae obsesiwn bodau dynol
gyda thaclusrwydd yn dileu
cynefin ar gyfer peillwyr a
bywyd gwyllt. Mae
glaswelltir gaiff ei dorri'n
aml yn golygu nad yw
blodau'n tyfu ac nad oes
bwyd i'r peillwyr.

Torri a Chasglu

Mae blodau gwyllt yn hoffi priddoedd sydd heb lawer o faeth fel na fydd planhigion sy'n tyfu'n gyflym, fel dail tafol a gweiriau, yn cystadlu gyda nhw.

Un ffordd i ostwng lefelau'r maetholion yn y pridd yw trwy 'Dorri a Chasglu'.

Mae 'Torri a Chasglu' yn golygu torri'r glaswellt a'i glirio o'r safle fel nad yw'n pydru'n ôl i mewn i'r ddôl.

Mae'n well gwneud hyn ddwywaith y flwyddyn, ar ddechrau'r Gwanwyn ac eto yn yr Hydref. Yna, gall blodau gwyllt dyfu dros yr Haf a darparu bwyd ar gyfer y peillwyr.



Gellir defnyddio'r torion gwair i greu pentyrrau cynefin ar gyfer bywyd gwyllt arall yn cynnwys mamaliaid bychan, ymlusgiaid ac amffibiaid!



Os oes rhaid ichi dorri'r glaswellt, mae 'Torri a Chasglu' yn syniad gwych.



Awgrymiadau Anhygoel ar gyfer Peillwyr #2



Mae Gweirlöyn y Ddôl
yn dweud...

"Ewch ati i hau dôl yn
defnyddio hadau blodau gwyllt
brodorol, lleol".

Yn gyntaf, gadewch i'ch ardal laswelltog dyfu i weld pa flodau gwyllt sydd gennych. Os oes angen, gallwch ei chyfoethogi gyda hadau'r Gribell Felen (*Rhinanthus minor*). Mae hwn yn cael ei adnabod hefyd fel planhigyn creu dolydd oherwydd ei allu i leihau tyfiant gweiriau sy'n tyfu'n gyflym.



Gwrandewch am sŵn yr hadau
yn eu codau yn yr Haf.



Creu Dôl Fechan - Mae creu cynefin dôl mewn lleoliad trefol yn wych ar gyfer pryfed peillio a gall greu grŵn hafaidd lliwgar yn eich gardd.

Awgrymiadau Anhygoel ar gyfer Peillwyr #3



"Peidiwch â chwistrellu,
fy nghinio yw hwnna!"

Mae cemegau, fel chwynladdwyr, yn lladd planhigion sy'n blodeuo ac yn effeithio ar ddysg a chof gwenyn gan ei gwneud yn anodd iddyn nhw ddod o hyd i flodau.



Mae Chwyn yn Flodau Gwyllt!



Ffacbysen
(*Vicia sativa*)



Dant y Llew
(*Taraxacum officinale*)



Blodyn Ymenyn
(*Ranunculus acris*)

Yn aml, bydd blodau gwyllt yn cael eu hystyried yn 'chwyn', ond maen nhw'n ffynhonnell fwyd bwysig ar gyfer pryfed peillio ac maen nhw'n hardd iawn hefyd.



Awgrymiadau Anhygoel ar gyfer Peillwyr #4



Mae'r Gacynen
Gynffongoch
yn dweud...

"Plannwch ardd berlysiau.
Mae gwenyn wrth eu
bodd gyda pherlysiau..."



... ac mae'n gyfle gwych i fod yn
greadigol yn yr ardd!"

Mae plannu perlyisiau'n helpu Peillwyr!



Penrhudd yr Ardd
(*Origanum majorana*)



Rhosmari
(*Salvia rosmarinus*)



Ffenigl
(*Foeniculum vulgare*)

Mae perlyisiau sy'n blodeuo fel Penrhudd yr Ardd, Rhosmari a Ffenigl yn cynnig dau fudd: llawer o neithdar ar gyfer peillwyr a pherlyisiau ffres i chil

Awgrymiadau Anhygoel ar gyfer Peillwyr #5

'Does dim rhaid i helpu ein cyfeillion y Peillwyr orffen gyda'r hyn y byddwch yn ei blannu. Mae gan bryfed peillio gynefinoedd nythu amrywiol, gwych. Mae ambell rywogaeth yn nythu oddi ar y llawr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, fel mwd, resin coed neu ddail wedi'u cnoi i selio eu nythod. Mae'r mwyafrif o welyn unig yn nythu yn y ddaear. Ond yw hynny'n anhygoel!



Mae'r Saerwenynen
Goch yn dweud ...

"Crëwch gynefin nythu ar gyfer Peillwyr."

Mae deall sut y mae pryfed yn byw a'u cynefinoedd yn bwysig iawn er mwyn i niferoedd gynyddu ac fe allwch chi helpu! Am fwy o wybodaeth ewch i:



Mae 'gallt gwenyn' yn syniad gwych ar gyfer gwenyn turio unig. Defnyddiwch frics a cherrig ar gyfer y sylfaen a'u gorchuddio â thywod. Safle sy'n wynebu'r de fydd orau.



Bydd Saerwenyn
Coch yn nythu yn y
tyllau sydd wedi'u
drilio yma.

Mae gwestai gwenyn yn adeiladau sy'n cynnig lloches i bryfed peillio ac infertebratau eraill, un ai i aeafu, bridio neu dreulio eu bywyd bob dydd. 'Does dim rheolau pendant! Gellir eu hadeiladu yn unrhyw faint neu batrwm ac o amrywiol ddeunyddiau er mwyn darparu ar gyfer gwahanol bryfed.

Awgrymiadau Anhygoel ar gyfer Peillwyr #6 i #10



Mae'r Gardwenynen
Feinlais yn dweud...

Awgrym Anhygoel #6

Plannwch flodau brodorol, sy'n gyfeillgar
i beillwyr!



Awgrym Anhygoel #7

Plannwch goed a pherthi brodorol sy'n
gyfeillgar i beillwyr.

Maent o fudd i bob bywyd gwyllt!




Mae Glesni
Y Glesyn Bach
yn dweud ...



Mae'r Pryf Hofran
yn dweud...

Awgrym Anhygoel #8

Darparwch 'Bwll Pryfed Hofran'. Gallwch
ailgylchu twb, ychwanegu dŵr, dail a rhywfaint o
frigau. Mae pryfed hofran yn beillwyr hefyd!





Awgrym Anhygoel #9

"Meddylwch ddwywaith cyn cael cwch o wenyn mêl."


Mae'r mwyafrif o wenyn mêl yn beillwyr 'dof'. Os oes gennym ormod o gychod gwenyn mêl yn y dirwedd, gallant gystadlu am fwyd gyda'n peillwyr gwyllt sydd mewn trafferth.



Awgrym Anhygoel #10

"Rhannwch y newyddion!"

Mae llawer o bobl am helpu peillwyr, ond gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau. Dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu am y 10 Awgrym Anhygoel hyn i helpu peillwyr a chreu eich B-Line eich hun! Bydd newid yn digwydd pan mae'r newydd yn cael ei rannu, yn y diwedd bydd gennym rwydwaith o gynefinoedd ble gall peillwyr oroesi a ffynnu.




Peidiwch â bod yn Gawr Gwirion!



Dwy Ffilm wedi'u hysbrydoli gan lyfr byr Oscar Wilde 'The Selfish Giant' a grëwyd fel rhan o Brosiect B-Lines Castell-nedd Port Talbot gan ddisgyblion Ysgol Rhosafan ac Ysgol Gynradd Sandfields.



Gwylwch ffilm Ysgol Gynradd Sandfields yma:






Peidiwch â bod yn Gawr Gwirion!



B-Lines a'r cewri sydd â phwerau arbennig!
B-Lines and the giants with special powers!



Gwylwch ffilm Ysgol Rhosafan yma:




"Mae cynnal a chreu cynefinoedd ar gyfer pryfed peillio sy'n gwneud cymaint drosom ni yn flaenoriaeth amlwg i'r dyfodol. Y bobl ifanc hyn yw'r dyfodol. Fe wnaeth pob un ohonynt arddangos ymrwymiad a dealltwriaeth o'r materion Eco dan sylw ymhell tu hwnt i'w hoedran. Crëwyd y ffilmiau dros gyfnod y Pandemig a'u cwblhau'n bennaf trwy weithdai ar-lein gyda rhywfaint o sesiynau dysgu'r tu allan ar Draeth Aberafan. Roedd creadigedd a phleser y disgyblion wrth ddysgu yn gwbl wych!"
Tom Maloney, Artist sy'n gweithio gyda Phrosiect B-Lines



Eglurhad

- Rhwydwaith B-Lines Cymru
- Rhwydwaith B-Lines y tu allan i Gymru



© OpenStreetMap and contributors, CC-BY-SA, Imagery © Mapbox

Map B-Lines - Dolen

Ydych chi ar B-Line?

Helpwch Buglife i greu B-Lines. Ychwanegwch eich prosiect peillwyr i'n map B-Lines trwy glicio ar y côd QR isod a dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrîn.





Tegeirianau y Wenynen (*Ophrys apifera*) ym Mhort Talbot

Mae prosiect B-Lines Castell-nedd Port Talbot (NPT), a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn anelu i fynd i'r afael â'r dirywiad yn ein pryfed peillio trwy greu rhwydwaith o B-Lines sy'n cydgysylltu cynefinoedd llawn blodau gwyllt ar draws Castell-nedd Port Talbot, o Bentrecaseg i Bort Talbot ac o Faglan i Gastell-nedd.

Diolch o galon i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a holl bartneriaid ein prosiect B-Lines, yr ysgolion, y cymunedau a'r gwirfoddolwyr sydd wedi'n helpu i greu gwaddol parhaol ar gyfer peillwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot.

